# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3)-02-09)

**Dyddiad: 20 Ionawr 2009**
**Amser : 8.45am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 20 Ionawr 2009. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Mark Isherwood AC, Alun Davies AC, Joyce Watson AC, Janet Ryder AC a Mike German AC.

Yn dilyn y newidiadau i aelodau'r Pwyllgor, cafodd Janet Ryder AC ei hethol yn Gadeirydd.

### Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC233 - Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 16 Rhagfyr 2008. Fe'u gosodwyd ar 18 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 9 Ionawr 2009.

SLC234 - Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio)(Rhif 2) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 19 Rhagfyr 2008. Fe'u gosodwyd ar 19 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 12 Ionawr 2009.

### Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC230 - Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Rhagfyr 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

Ystyriodd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth i'r pwyntiau adrodd a nodwyd gan Gynghorwyr Cyfreithiol y Cynulliad. O gofio y gallai'r pwynt a godwyd mewn perthynas â rheoliad 15(1)(c) godi materion yn ymwneud â phwerau (vires) mewn cysylltiad â throseddau honedig, penderfynodd y Pwyllgor nad oedd ymateb arfaethedig y Llywodraeth mewn perthynas â'r pwynt adrodd penodol hwn yn dderbyniol ac roedd o'r farn y dylid cywiro'r diffyg hwn cyn gynted â phosibl. Cytunodd yr aelodau y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog i dynnu ei sylw at safbwyntiau'r Pwyllgor.

SLC231 - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 10 Rhagfyr 2008. Fe'u gosodwyd ar 15 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 9 Ionawr 2009.

Nododd yr aelodau fod y Pwyllgor wedi nodi llawer o Offerynnau Statudol o dan Reol Sefydlog 15.2(vii) - bod deddfwriaeth yn cynnwys anghysondebau rhwng ystyr y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn eithaf aml, roedd yr anghysondebau hyn yn sylweddol a gallai fod iddynt oblygiadau difrifol iawn, fel yn achos SLC231 - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008. Gofynnodd yr aelodau i'r Cynghorydd Cyfreithiol gyflwyno adroddiad yn ystod y cyfarfod nesaf yn nodi pam bod yr anghysondebau hyn yn codi mor aml.

Gofynnodd yr aelodau hefyd am bapur ar ddosbarthiad y pwyntiau y cyflwynwyd adroddiad arnynt o dan Reol Sefydllog 15 mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol a ystyriwyd yn ystod blwyddyn gyfredol y Cynulliad. Caiff yr adroddiad ei baratoi cyn dechrau toriad yr haf.

Ceir Adroddiadau'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr offerynnau statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn

Atodiadau 1-2 yr Adroddiad hwn**.**

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**20 Ionawr 2009**

## Atodiad 1

### Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-01-09**

**)**

### SLC230

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

### Teitl: Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ail-wneud gyda diwygiadau Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006. Maent yn gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 (fel y'i diwygiwyd) o Senedd Ewrop a'r cyngor yn gosod rheolau i atal, rheoli a dileu rhai mathau o enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy a hefyd yn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 2007/511 sy'n gwahardd rhoi ar y farchnad gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid buchol a anwyd neu a fagwyd o fewn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 at unrhyw ddiben, yn esemptio'r anifeiliaid hynny rhag mesurau rheoli a dileu penodol a osodwyd yn Rheoliad (EC) Rhif 999/2001.

### Gweithdrefn: Negyddol

Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.2(vi) (ei bod yn ymddangos bod gwaith ddrafftio'r offeryn yn ddiffygiol):-

Rheoliad 15(1)(c): cyfeiria'r testun Saesneg at y person sydd ag unrhyw brotein anifeiliaid neu fwydydd anifeiliaid yn ei feddiant neu gyflenwr unrhyw brotein anifeiliaid neu fwydydd anifeiliaid. Nid yw'r testun Cymraeg yn cynnwys cyfeiriad at y cyflenwr.

Atodlen 3 paragraff 5(6): Cyfeiria'r testun Saesneg at anifail a ledir o dan y paragraff hwn (hy paragraff 5). Cyfeiria'r testun Cymraeg at anifail a ledir o dan y rheoliad hwn. Cyfeirir yn gywir at isadrannau o fewn atodlenni fel paragraffau; mae'n ofynnol newid y testun Cymraeg.

Atodlen 6: cyfeirir at bedair isadran paragraff 3(2) y testun Cymraeg fel (a) -(d); y cyfeiriadau cywir yw (a) - (ch).

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**20 Ionawr 2009**

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Bydd y Llywodraeth yn defnyddio'r OS arfaethedig sy'n diwygio'r prif Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy i ymgorffori'r rheolau newydd ar laeth defaid a llaeth geifr i gywiro'r gwallau hyn. Disgwylir y rheolau newydd ym Mawrth 2009 a rhagwelir y bydd yr OS diwygio a fydd yn rhoi'r rheolau hynny ar waith yn cael ei wneud ym Mehefin 2009.

## Atodiad 2

### Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-02-09)**

### SLC231

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

### Teitl: R

### heoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig mewn perthynas â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2009. Maent yn cydgrynhoi, gyda rhai newidiadau, Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008, fel y'u diwygiwyd ("Rheoliadau 2008").

### Gweithdrefn: Negyddol

Nodwyd y pwyntiau canlynol i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae testun Saesneg rheoliad 3(9) yn cloi gyda chyfeiriad at 1 Medi 2009, a'r testun Cymraeg yn cyfeirio at 2008. [Rheol Sefydlog 15.2

(vii)]

Mae testun Saesneg rheoliad 10(2)(b) yn cynnwys y geiriau "or is applying for an additional amount of fee loan under regulation 21(3) or 21(7)," a'r testun Cymraeg yn nodi "neu os yw'n ceisio am swm ychwanegol o fenthyciad at ffioedd o dan reoliad 21(6) neu 21(8)," [or is applying for an additional amount of fee loan under regulation 21(6) or 21(8)]. [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)]

Mae testun Saesneg paragraff 5(1)(a) o Atodlen 6 yn cynnwys y geiriau "in any case where the household income exceeds £39,793" a'r testun Cymraeg yn nodi "mewn unrhyw achos lle mae incwm yr aelwyd dros £39,780" [in any case where the household income exceeds £39,780]. [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)]

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Ionawr 2009; mae'n bwysig felly fod yr anghysondebau hyn yn cael eu cywiro cyn gynted ag y bo modd.

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**20 Ionawr 2009**

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn y pwyntiau adrodd ac mae'n bwriadu dwyn deddfwriaeth ddiwygio gerbron cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn debygol o ddigwydd cyn pen y pedwar mis nesaf a chyn 1 Medi 2009 man hwyraf, sef y dyddiad pan fydd y flwyddyn academaidd y mae a wnelo'r Rheoliadau â hi yn dechrau.